Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Camymddwyn Anacademaidd

# Cynnwys

1 Cyflwyniad .... 3
2 Diben .... 3
3 Cwmpas .... 3
4 Y berthynas a’r rhyngwyneb â pholisïau a gweithdrefnau eraill .... 4
5 Cyfrifoldebau .... 5
6 Diffiniadau .... 5
7 Aflonyddu a Bwlio .... 7
8 Rhoi gwybod am fwlio ac aflonyddu .... 8
9 Addasiadau rhesymol ac amgylchiadau lliniarol .... 9
10 Cymorth .... 10
11 Diarddel uniongyrchol o elfen o fodwl .... 10
12 Prosesau ar gyfer mân droseddau a thramgwyddau ymddygiad honedig .... 11
13 Prosesau Troseddol .... 12
14 Gweithdrefnau: egwyddorion cyffredinol .... 12
15 Rhoi gwybod am Drosedd neu Dramgwydd Ymddygiad Mawr honedig .... 15
16 Prosesau'n ymwneud â mwy nag un myfyriwr .... 15
17 Camau rhagofalus ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig .... 16
18 Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i droseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig .... 17
19 Canlyniadau .... 18
20 Ailystyried yr un drosedd .... 21
21 Gweithdrefnau ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig anghymhleth .... 21
22 Gweithdrefnau ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig cymhleth .... 21
23 Adolygu Canlyniad .... 22
24 Cwblhau Gweithdrefnau ac Adolygiad Annibynnol .... 24
25 Paramedrau cyfrinachedd .... 24
26 Llinellau amser safonol .... 24
27 Monitro .... 25
28 Goblygiadau Adnoddau .... 25
29 Asesu Effaith .... 26

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r polisi hwn yn cynnwys gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch camymddwyn anacademaidd gan fyfyrwyr ac yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pan mae honiad o gamymddwyn anacademaidd wedi'i wneud. Mae hyn yn cynnwys honiadau o fwlio ac aflonyddu yn ogystal â ffurfiau eraill o gamymddwyn.

1.2 Mae'r polisi'n mabwysiadu egwyddorion ac arfer da nifer o ddogfennau'r sector:

- OIA: The Good Practice Framework: Disciplinary Procedures (2018);
- Universities UK and Pinsent and Mason: Guidance for Higher Education Institutions: How to Handle Alleged Student Misconduct Which May Also Constitute a Criminal Offence (2016);
- Universities UK: Changing the Culture: Report of the Universities UK Taskforce examining violence against women, harassment and hate crime affecting university students (2016);
- Universities UK: Changing the Culture: One Year On: An assessment of strategies to tackle sexual misconduct, hate crime and harassment affecting university students (2018).
- Universities UK: Changing the Culture: Sharing personal data in harassment cases (2022)

1.3 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Camymddwyn Anacademaidd yn weithdrefn fewnol ac nid yw'n broses gyfreithiol. Mae'r Brifysgol yn cynghori myfyrwyr i ddefnyddio gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr (UMYDDS), sy'n annibynnol ar y Brifysgol ac sydd â dealltwriaeth lawn o brosesau a gweithdrefnau'r brifysgol. Nid yw PCYDDS fel arfer yn defnyddio gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i ymdrin ag achosion, ac nid yw'n disgwyl y bydd angen i fyfyrwyr wneud hynny chwaith. Fel arfer ni chaniateir i fyfyrwyr gyflogi gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

# 2 Diben

2.1 Diben y polisi hwn yw meithrin diwylliant lle na chaiff camymddwyn anacademaidd ei oddef a darparu amgylchedd dysgu cynhwysol, cefnogol a diogel, lle gall yr holl fyfyrwyr a'r staff ffynnu a chyflawni eu potensial personol.

2.2 Ceisia'r polisi hefyd sicrhau y cynhelir gweithdrefnau am gamymddwyn anacademaidd mewn modd teg a thryloyw, bod y Brifysgol yn gweithredu dyletswydd gofal briodol, yn defnyddio egwyddorion cyfiawnder naturiol, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau cyfartal, hawliau dynol a phob deddfwriaeth berthnasol arall yn y maes hwn.

# 3 Cwmpas

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd yn uniongyrchol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

3.2 Yn achos myfyrwyr a gofrestrwyd mewn sefydliadau partneriaeth gydweithredol neu yng Ngholegau Cyfansoddol y Brifysgol, dilynir gweithdrefnau'r sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae gan y myfyrwyr hyn yr hawl i ofyn i'r Brifysgol adolygu canlyniad eu hachos. Gweler adran 23 y polisi hwn.

3.3 Mewn achosion lle cyflawnwyd trosedd honedig gan fyfyriwr sydd yn fyfyriwr ac yn aelod o staff yn PCYDDS neu Sefydliad Partner, yn gyntaf penderfynir a ddylid cychwyn gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr neu staff.

3.4 Gellir cymhwyso'r polisi hwn i gyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yn enwedig pan gychwynnwyd gweithdrefnau tra oedd y cyn-fyfyriwr yn fyfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol.

3.5 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu camymddwyn anacademaidd honedig gan fyfyriwr sy'n digwydd o fewn neu y tu allan i dir ac adeiladau'r Brifysgol (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol) lle mae'r ymddygiad wedi effeithio ar y Brifysgol ei hun, ar fyfyriwr neu gyflogai yn y Brifysgol, ar bobl eraill sy'n ymweld, yn gweithio neu'n astudio yn y Brifysgol, ar aelod o'r cyhoedd neu ar unrhyw drydydd parti arall.

3.6 Yng nghyswllt camymddwyn anacademaidd y tu allan i dir ac adeiladau'r Brifysgol, gall y Brifysgol gymryd camau os bydd y camymddwyn honedig yn digwydd yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (e.e. ar leoliadau a theithiau maes neu wrth astudio neu ddefnyddio cyfleusterau mewn sefydliadau partner) neu gymryd camau mewn ymateb i ymddygiad sy'n effeithio ar enw da'r Brifysgol yn y gymuned leol neu'n fwy eang.

3.7 Disgrifia'r polisi'r gweithdrefnau mewnol ac amlinella sut mae'n delio â materion a allai fod yn droseddau yn erbyn y gyfraith.

3.8 Mae'r gallu gan y Brifysgol i gymryd camau yn erbyn myfyriwr o'i dewis ei hun os na ddymuna'r myfyriwr neu'r aelod o staff sy'n rhoi gwybod am y camymddwyn wneud cwyn ffurfiol.

3.9 Dylid cyfeirio cwynion yn ymwneud â gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr at Undeb y Myfyrwyr ac ni chânt eu hystyried dan y polisi hwn.

# 4 Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisïau a gweithdrefnau eraill

4.1 Mae nifer o strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd, yn cynnwys y canlynol:

a. Cod Ymddygiad y Myfyrwyr;
b. Polisi Iechyd a Diogelwch;
c. Polisi Addasrwydd i Ymarfer;
d. Polisi Cymorth i Astudio;
e. Gweithdrefnau Twyll;
f. Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg a Systemau Gwybodaeth;
g. Gweithdrefnau Prevent;
h. Polisi Perthnasoedd Proffesiynol;
i. Polisi Diogelu;
j. Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
k. Polisi Camymddwyn Academaidd;
l. Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti;
m. Polisi Amgylchiadau Lliniarol;
n. Polisi Apeliadau Academaidd;
o. Polisi Cwynion Myfyrwyr.

4.2 Cyn cychwyn unrhyw weithdrefnau ffurfiol, bydd y Brifysgol yn ystyried pa weithdrefn(au) yw'r rhai mwyaf priodol i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r drosedd honedig.

4.3 Bydd y Brifysgol yn ailasesu hyn fel y bo'n briodol a gall newid neu ychwanegu gweithdrefnau fel y bo'n briodol. Er enghraifft, pan ddaw'n glir bod problemau gwaelodol o ran iechyd corfforol neu iechyd meddwl gellir defnyddio'r polisi Cymorth i

Astudio yn hytrach na'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd ar gyfer tramgwyddau ymddygiad honedig. Mae'n bosibl y gweithredir dwy weithdrefn yn gyfochrog, er enghraifft Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg a Systemau Gwybodaeth ar y cyd â'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd neu'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd ar y cyd â'r Polisi Addasrwydd i Ymarfer. Neu gall fod y dilynir y Polisi Camymddwyn Anacademaidd gan weithdrefnau dan y Polisi Addasrwydd i Ymarfer. Os cychwynnir prosesau ffurfiol yn erbyn myfyriwr yn sgil honiad o aflonyddu a bwlio, defnyddir y Polisi Camymddwyn Anacademaidd.

4.4 Os ydy dau neu fwy o bolisïau neu weithdrefnau'n gymwys ar yr un pryd, fel arfer bydd un o'r polisïau'n brif bolisi yn nhermau proses.

4.5 Caiff myfyriwr y gwnaethpwyd honiad yn ei erbyn, wybod pa bolisi, polisïau a / neu weithdrefnau a ddefnyddir yn ei achos.

# 5 Cyfrifoldebau

- Y Cyngor sy'n goruchwylio cynnal disgyblaeth ac ymddygiad da.
- Cyfrifoldeb y Senedd yw cynnal disgyblaeth ac ymddygiad da.
- Goruchwylir gweithdrefnau camymddwyn anacademaidd myfyrwyr ar ran y Senedd gan y Pro Is-Ganghellor priodol.
- Mae'r Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr yn monitro gweithredu'r polisi a'r gweithdrefnau.
- Yr Is-Ganghellor (neu enwebai) sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gohirio neu derfynu astudiaethau'n llwyr.
- Mae Swyddogion Achosion yn cyflawni ystod o rolau yng nghyswllt achos disgyblu, yn cynnwys ymgymryd ag unrhyw asesiad risg rhagarweiniol, cwblhau ymchwiliad, gwneud argymhelliad a oes angen i achos fynd at Banel Ffurfiol, a chynnal a chwblhau prosesau'n ymwneud â mân droseddau. Mae'n bosibl y bydd mwy nag un Swyddog Achosion ar gyfer achos penodol, a bydd rôl benodol gan bob swyddog ynglŷn â'r achos.
- Uwch Swyddog fydd yn cynnal adolygiad o'r canlyniad.
- Mae Deoniaid Athrofeydd a'r Penaethiaid / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol perthnasol yn gyfrifol am sicrhau y defnyddir y gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn yn briodol ar gyfer unrhyw fân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad honedig yr ymdrinnir â nhw ar lefel leol.

# 6 Diffiniadau

6.1 Cyhoeddwyd Cod Ymddygiad Myfyrwyr sy'n nodi safonau ymddygiad disgwyliedig. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr hwn yn gyfystyr â thor-disgyblaeth. Noda'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr yr ystod o gosbau y gellir eu defnyddio yng nghyswllt y mathau gwahanol o gamymddwyn anacademaidd.

6.2 Mae troseddau Camymddwyn Anacademaidd yn debygol o gwympo i un o'r categorïau isod:

- Gweithredoedd sy'n achosi **trallod neu niwed** gwirioneddol neu bosibl i bobl eraill;
- Gweithredoedd sy'n achosi **difrod** gwirioneddol neu bosibl **i eiddo** pobl eraill;
- Gweithredoedd a all atal neu darfu ar **weithrediad arferol** y Brifysgol;
- Gweithredoedd a all achosi **niwed i enw da**'r Brifysgol o ganlyniad i gamymddwyn gan y tramgwyddwr honedig;
- Gweithredoedd **sy'n rhwystro neu'n ymyrryd â chyflawniad gwaith/astudio** gan aelodau'r Brifysgol, neu'n effeithio ar weithrediadau arferol y Brifysgol.

- Achosion o dorri Cod Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol

6.3 Mae enghreifftiau o gamymddwyn anacademaidd yn cynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Ymddygiad amhriodol, camdriniol neu fygythiol yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol;
- Peryglu diogelwch a/neu les staff, myfyrwyr eraill, ymwelwyr neu'r gymuned leol;
- Camymddwyn rhywiol;
- Trais, aflonyddu a throseddau casineb;
- Ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar y Brifysgol, megis ymddygiad aflonyddgar yn y gymuned;
- Cam-drin mynediad i'r rhyngrwyd, megis ymweld â gwefannau amhriodol, uwchlwytho/lawrlwytho cynnwys amhriodol, lledaenu firysau cyfrifiadurol;
- Ymddygiad aflonyddgar ar dir neu adeiladau'r Brifysgol, megis cychwyn larymau tân neu rwystro mynediad i adeiladau neu ystafelloedd;
- Difrod i eiddo'r Brifysgol neu gam-drin ei chyfleusterau;
- Achosi pryder ynghylch iechyd neu ddiogelwch;
- Dibynnu ar ddogfennaeth dwyllodrus, wedi'i ffugio neu wedi'i hanwirio, a ffurfiau eraill ar ddichell gyda'r bwriad o gael mantais, er enghraifft cyflwyno honiadau o amgylchiadau lliniarol sy'n dwyllodrus neu anwirio tystiolaeth i gefnogi honiadau o amgylchiadau lliniarol neu yn ymwneud â ffioedd y Brifysgol;
- Ymddygiad arall a all hefyd fod yn drosedd sy'n torri'r gyfraith.

6.4 Diffinnir **Aflonyddu** yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel:

- Ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig berthnasol, gyda'r nod neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i'r unigolyn hwnnw.
- Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw/rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol.[1]
- Mae'r Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 yn diffinio ymddygiad sy'n 'achosi braw neu ofid' neu 'sy'n gwneud i bobl ofni trais' fel aflonyddu.[2]

6.5 Nodweddion **bwlio** yw:

- Ymddygiad ymosodol, bygythiol, maleisus neu sarhaus, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer trwy ffyrdd sy'n tanseilio, bychanu, dirmygu neu niweidio'r derbynnydd.

6.6 Diffinnir **erledigaeth** yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel:

- Trin person yn niweidiol oherwydd bod y person wedi cwyno, neu os credir y bydd y person yn cwyno am aflonyddu, neu os yw person wedi helpu rhywun sydd wedi dioddef aflonyddu.[3]

---

[1] Mae aflonyddu'n berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio beichiogrwydd a mamolaeth lle gellir ystyried unrhyw driniaeth anffafriol yn achos o wahaniaethu, a phriodas a phartneriaeth sifil lle nad oes tystiolaeth sylweddol o'i angen.

[2] https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/stalking-and-harassment

[3] https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/equalityact2010-technicalguidance-feandhe-2015.pdf

6.7 **Troseddau casineb** yw unrhyw droseddau sy'n cael eu targedu at berson oherwydd gelyniaeth neu ragfarn tuag at: anabledd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol person.

- Gellir cyflawni troseddau casineb yn erbyn person neu eiddo.

6.8 Diffinnir y weithred o **Gydsynio** yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 fel a ganlyn:

- mae person yn cydsynio os yw'n cytuno trwy ddewis ac mae ganddo'r rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw.[4]

6.9 Bydd troseddau Camymddwyn Anacademaidd yn cael eu categoreiddio'n droseddau **mân** neu **fawr** yn ôl difrifoldeb y camymddwyn. Gall cyfres o fân droseddau gyfrif yn drosedd fawr, yn enwedig pryd mae ymyrraeth gynharach neu gamau unioni wedi methu.

6.10 Yng nghyswllt troseddau mawr, bydd yr ymchwiliad yn ceisio sefydlu a ydy'r achos yn un **cymhleth** neu **anghymhleth.** Mae achosion **cymhleth** yn cynnwys achosion lle nad addefir y drosedd honedig, lle ceir tystiolaeth groes, amhendant neu anghyson, lle ceir lefel uchel o risg, neu lle mae potensial i'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn i'r myfyriwr. Cyfeirir achosion cymhleth at Banel Ffurfiol; bydd achosion anghymhleth yn symud ar unwaith tuag at ganlyniad.

6.11 Drwy gydol y polisi hwn, **'y myfyriwr'** = y myfyriwr y gwnaethpwyd honiad o gamymddwyn anacademaidd yn ei erbyn. Yr unigolyn neu grŵp sy'n gwneud cwyn = **'yr achwynydd'**.

6.12 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu digwyddiadau lle mae achwynydd gwirioneddol yn ogystal â digwyddiadau lle mai'r Brifysgol yw'r achwynydd.

6.13 Gall myfyrwyr benderfynu yr hoffent gael cynrychiolydd trydydd parti neu berson sy'n cynorthwyo.

6.14 Mae'r polisi a'r weithdrefn sy'n ymwneud â chynrychiolaeth, cymorth ac ymholiadau gan drydydd parti i'w gweld yn y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.

6.15 **Datgeliad cyntaf** = pan fydd myfyriwr yn rhoi gwybod am ddigwyddiad honedig i aelod o staff am y tro cyntaf. Gall datgeliad cyntaf arwain at **gŵyn** ond nid oes rhaid iddo. Gweler hefyd 13.7. Mae canllawiau yn eu lle i'r staff yng nghyswllt datgeliad cyntaf ar gyfer digwyddiadau.

# 7 Aflonyddu a Bwlio

7.1 Mae'n bosibl y ceir dehongliadau gwahanol ynghylch beth yw aflonyddu a/neu fwlio. Y ffactorau mwyaf perthnasol wrth benderfynu a yw aflonyddu a/neu fwlio wedi digwydd yw:

- effaith yr ymddygiad nas dymunir ar yr achwynydd; ac
- a ellid ystyried yn rhesymol bod yr ymddygiad nas dymunir yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu fwlio.
- Mae'r cymhelliad neu'r bwriad y tu ôl i'r ymddygiad nas dymunir yn eilaidd i'r ffactorau hyn.

7.2 Mae Atodiadau A B yn rhoi rhestr esboniadol o enghreifftiau o ymddygiad nas dymunir a allai fod yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu fwlio.

[4] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/42/section/74

7.3 Mae aflonyddu o ganlyniad i nodwedd warchodedig neu yn gysylltiedig â hynny wedi'i wahardd gan y gyfraith dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amlinellir yr egwyddorion a ddilynir pan y gallai aflonyddu fod yn drosedd yn erbyn y gyfraith yn adran 13 y polisi hwn.

7.4 Nid oes angen i unigolyn fod wedi datgan yn benodol ei fod yn gwrthwynebu'r ymddygiad nas dymunir iddo gael ei ystyried yn ddigroeso a bod yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu fwlio.

7.5 Ni fyddai un mân ddigwyddiad fel arfer yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu fwlio. Gellir ystyried cyfres o fân ddigwyddiadau yn dystiolaeth o batrwm o aflonyddu a/neu fwlio.

7.6 Mae aflonyddu a/neu fwlio yn aml yn cynnwys sawl achos o ymddygiad nas dymunir. Fodd bynnag, pan mae un digwyddiad ar ei ben ei hun yn ddigon difrifol gall y Brifysgol hefyd ystyried bod hwn yn gyfystyr ag aflonyddu a/neu fwlio.

7.7 Gall aflonyddu a/neu fwlio:

- fod gan unigolyn yn erbyn unigolyn arall neu gallai gynnwys grwpiau o bobl.
- fod yn amlwg neu'n annymunol; gall y camddefnydd o bŵer fod yn eglur neu'n ymhlyg.
- ddigwydd trwy amrywiol ffurfiau eraill o gyfathrebu (e.e. e-bost, ffôn, cyfathrebu ysgrifenedig, ac ar y cyfryngau cymdeithasol).

7.8 Gall myfyrwyr gwyno am ymddygiad y maent yn ei ystyried yn dramgwyddus hyd yn oed os nad yw wedi'i gyfeirio atyn nhw (e.e. pan gaiff amgylchedd tramgwyddus ei greu o ganlyniad i ymddygiad tuag at y rhai â nodwedd warchodedig berthnasol).

7.9 Yn ogystal nid oes angen i fyfyrwyr fod â'r nodwedd warchodedig berthnasol eu hunain er mwyn gwneud cwyn (e.e. pan gânt eu bwlio neu eu aflonyddu pan ystyrir yn anghywir fod ganddynt nodwedd warchodedig neu pan maent yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig).

# 8 Rhoi gwybod am fwlio ac aflonyddu

8.1 Yn dibynnu i raddau helaeth ar ddifrifoldeb yr aflonyddu a/neu'r bwlio, cyn i unrhyw weithdrefnau ffurfiol ddechrau, efallai y bydd yn briodol defnyddio dull anffurfiol yn gyntaf fel y manylir yn adran 12 y polisi hwn.

8.2 Mater i'r achwynydd, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yw a ddylid defnyddio llwybr anffurfiol yn gyntaf ai peidio.

8.3 Os nad yw achwynydd yn teimlo bod llwybr anffurfiol yn briodol, gall roi gwybod am aflonyddu a/neu fwlio trwy ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am drosedd honedig ddifrifol neu dramgwydd ymddygiad, fel yr amlinellir yn adran 15 y polisi hwn.

8.4 Pan mae'r aflonyddu neu'r bwlio'n ddifrifol, disgwylir y bydd materion yn symud ymlaen i gam ffurfiol ar unwaith, gan ddilyn prosesau camymddwyn anacademaidd myfyrwyr fel y bo'n briodol.

8.5 Byddai'n ddefnyddiol pe bai achwynwyr sy'n gwneud honiad am fwlio a/neu aflonyddu yn cadw dyddiadur o unrhyw ddigwyddiadau, sy'n cynnwys manylion megis y dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd enghreifftiau o fwlio a/neu aflonyddu, copïau o unrhyw dystiolaeth (negeseuon e-bost, tystiolaeth cyfryngau cymdeithasol, lluniau), ac enwau unrhyw dystion.

8.6 Os yw achwynydd yn credu ei fod yn dioddef o aflonyddu a/neu fwlio ar leoliad, dylai ddefnyddio polisïau'r sefydliad derbyn neu'r cyflogwr yn y lle cyntaf i geisio datrys y mater yn lleol/anffurfiol. Anogir achwynwyr hefyd i roi gwybod i'w Hathrofa am unrhyw bryderon fel y gellir darparu cymorth priodol.

8.7 Pan mae Athrofeydd yn trefnu lleoliadau ar ran myfyrwyr, fe'u hanogir i gadw cofnodion yn ymwneud â datgeliadau am fwlio ac aflonyddu i weld a oes unrhyw faterion sy'n codi dro ar ôl tro y mae angen mynd i'r afael â nhw gyda darparwyr lleoliadau.

8.8 Os bydd achwynydd yn tynnu'n ôl o leoliad ar sail achos o aflonyddu, gall fod yn ofynnol o hyd i fodloni unrhyw ofynion cwrs seiliedig ar waith. Bydd y Brifysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gynorthwyo myfyrwyr i wneud trefniadau amgen ar gyfer hyn, ond ni all sicrhau y bydd cyfleoedd ar gael bob tro ar gyfer lleoliad amgen. Awgrymir felly fod unrhyw fyfyrwyr sy'n dymuno tynnu'n ôl o leoliad yn siarad â'u cydlynydd lleoliad, rheolwr rhaglen neu diwtor personol cyn gynted ag y bo modd.

8.9 Ni oddefir erlid neu gau person allan am wneud cwyn, neu gynorthwyo rhywun i wneud cwyn am aflonyddu a/neu fwlio.

# 9 Addasiadau rhesymol ac amgylchiadau lliniarol

9.1 Gwneir addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol yng nghyswllt y broses a chyfleu'r canlyniad ar gyfer pob parti sydd ag anabledd datganedig neu anawsterau iechyd eraill. Lle nad yw myfyrwyr eisoes wedi datgan anabledd yn ffurfiol i'r Brifysgol cyn y digwyddiad honedig, fe'u cynghorir i wneud datganiad o'r fath cyn gynted â phosibl yn ystod y prosesau ffurfiol er mwyn cael modd i wneud addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol.

9.2 Yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch union natur unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen, mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr / achwynydd gan sicrhau y cymerir cyngor allanol fel y bo'n briodol. Gellir gohirio'r broses tan i'r holl addasiadau rhesymol gael eu rhoi yn eu lle.

9.3 Gall anabledd myfyriwr fod yn ffactor lliniarol yng nghyswllt y drosedd neu'r digwyddiad honedig.

9.4 O ran cynnwys cynrychiolwyr trydydd parti yng nghyswllt cyfathrebu ynghylch achos, gweler y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.

9.5 Caiff myfyrwyr gyfle i gyflwyno unrhyw amgylchiadau neu ffactorau lliniarol y credant y dylid eu cymryd i ystyriaeth mewn cysylltiad â'r drosedd honedig. Fel arfer, cyflwynir amgylchiadau a ffactorau o'r fath yn rhan o'r broses ymchwilio. Gall ffactorau lliniarol gynnwys y canlynol:

- Mae'r drosedd yn fân enghraifft o drosedd ddifrifol;
- Mae'n drosedd gyntaf;
- Mae'r myfyriwr yn cyfaddef y drosedd ar y cyfle cyntaf;
- Mae'r myfyriwr wedi mynegi edifeirwch;
- Mae gan y myfyriwr amgylchiadau personol argyhoeddiadol sy'n effeithio ar ei grebwyll.

9.6 Fel arfer nid yw amgylchiadau lliniarol yn berthnasol i benderfynu a ydy myfyriwr yn euog o drosedd, ond fel arfer fe'u cymerir i ystyriaeth wrth benderfynu ar ganlyniad, os penderfynir bod y myfyriwr wedi cyflawni'r drosedd.

# 10 Cymorth

10.1 Mae lles ei myfyrwyr a'i staff yn hollbwysig i'r Brifysgol. Mae unrhyw honiad o gamymddwyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar bob parti sydd ynghlwm ag ef (p'un a ymdrinnir â'r digwyddiad drwy broses camymddwyn anacademaidd neu broses droseddol).

10.2 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gan bob parti sydd ynghlwm â digwyddiadau o'r fath fynediad at gymorth, gwybodaeth, cyngor, a chymorth drwy gydol y broses, o adeg y datgeliad cyntaf neu adroddiad cyntaf o'r digwyddiad hyd at yr adeg pryd y bydd y broses droseddol a/neu gamymddwyn anacademaidd berthnasol wedi gorffen. Pan fo'n briodol, bydd y Brifysgol yn cyfeirio at wasanaethau cymorth allanol i ddarparu cymorth arbenigol bellach. Gall cymorth fod ar amrywiol ffyrdd yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen ac sy'n briodol i bob achos unigol. Gellir gohirio'r broses camymddwyn anacademaidd nes bod mynediad i gymorth priodol wedi'i drefnu.

10.3 Ymdrinnir yn deg â phob parti sydd ynghlwm â'r digwyddiad ac ni wneir unrhyw ragdybiaethau am unrhyw un o'r partïon sydd ynghlwm nes bod y broses droseddol a/neu gamymddwyn anacademaidd berthnasol wedi gorffen.

10.4 Ni ddarperir cymorth i'r myfyriwr ac i'r achwynydd gan yr un aelod o staff.

10.5 Bydd pob parti a thyst sydd ynghlwm â'r achos yn gallu cael mynediad i gymorth o'r fath drwy Adran Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol drwy gydol y broses camymddwyn anacademaidd. Hefyd gall myfyrwyr a thystion sy'n fyfyrwyr gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr am gymorth. Bydd staff yn gallu cael cymorth drwy'r Adran AD.

10.6 Gall myfyrwyr benderfynu yr hoffent gael cynrychiolydd trydydd parti neu berson sy'n cynorthwyo.

10.7 Mae'r polisi a'r weithdrefn sy'n ymwneud â chynrychiolaeth, cymorth ac ymholiadau gan drydydd parti i'w gweld yn y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.

10.8 Lle ceir myfyriwr yn ddieuog o drosedd sy'n torri'r gyfraith ac ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn y myfyriwr, gall fod angen cymryd camau parhaus y tu allan i'r broses camymddwyn anacademaidd er mwyn sicrhau lles a llesiant pob parti.

# 11 Diarddel uniongyrchol o elfen o fodwl

11.1 Mewn amgylchiadau sy'n seiliedig ar achosion, er enghraifft, o bresenoldeb gwael, iechyd a diogelwch, perygl i'r myfyrwyr eu hunain neu i eraill, ymddygiad amhriodol llafar, corfforol neu sarhaus arall ac ati, bydd tiwtor(iaid) yn arfer eu barn broffesiynol o ran a ddylid diarddel myfyriwr o elfen uniongyrchol o fodwl (megis darlith neu seminar). Caniateir i fyfyrwyr sy'n cael eu diarddel o elfen uniongyrchol o fodwl gyflwyno gwaith i'w asesu yn y ffordd arferol.

11.2 Hysbysir y Rheolwyr Rhaglen a'r Athrofeydd, fel y bo'n briodol, am y cam hwn yn ysgrifenedig ar y cyfle cyntaf posibl a rhoddir gwybod am fanylion llawn unrhyw ddigwyddiadau i'r Swyddfa'r Academaidd.

11.3 Ar sail yr adroddiad ysgrifenedig a gyflwynir gan y tiwtor ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall yn ymwneud â'r myfyriwr, bydd yr Athrofa'n cysylltu â'r Swyddfa Academaidd i benderfynu a yw'n briodol gweithredu'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd, y Polisi Cymorth i Astudio neu'r Polisi Addasrwydd i Astudio.

11.4 Os bydd myfyriwr yn anfodlon â phenderfyniad i'w ddiarddel o elfen uniongyrchol o fodwl, gall y myfyriwr gyflwyno cwyn gan ddilyn y Polisi Cwynion Myfyrwyr.

## 12 Prosesau ar gyfer mân droseddau a thramgwyddau ymddygiad honedig

12.1 Ar gyfer mân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad honedig, syml, fel arfer defnyddir dulliau lleol (e.e. dull dan arweiniad yr Athrofa neu Wasanaethau Proffesiynol). Gall hyn gynnwys cyfarfod ag aelod o staff a enwir o uned o'r fath.

12.2 Ceir aelodau o staff sy'n gallu ymdrin â mân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad honedig, syml ar lefel leol. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau o staff mewn swyddi penodol megis Profostiaid, Deoniaid yr Athrofeydd, Deoniaid Cynorthwyol yr Athrofeydd a Chyfarwyddwyr Disgyblaethau Academaidd yn yr Athrofeydd. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion Llety, Gweithredwyr Safle, a Swyddogion Cyswllt Cymunedol o fewn yr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol.

12.3 Os bydd Athrofa neu Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn dymuno ychwanegu at y swyddi a restrir uchod i alluogi aelodau staff ychwanegol i ymdrin â mân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad honedig, syml ar lefel leol, dylent hysbysu'r Swyddfa Academaidd.

12.4 Mae'r canlyniadau y gellir eu gosod wedi'u rhestru yn adran 19.

12.5 Mae angen cofnodi unrhyw ganlyniadau a osodir am fân droseddau a thramgwyddau ymddygiad yn ganolog gyda'r Swyddfa Academaidd.

12.6 Er gellir diarddel myfyrwyr o elfen uniongyrchol o fodwl yn sgil tramgwydd ymddygiad, ni ellir diarddel myfyrwyr am gyfnod penodol pellach neu'n barhaol o (ran o) eu hastudiaethau neu o unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau gan y Brifysgol oherwydd un achos o fân gamymddwyn anacademaidd. Gweler hefyd adran 11 a 17.

12.7 Fel arfer bydd Athrofeydd ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol yn cwblhau'r broses ar gyfer mân droseddau a thramgwyddau ymddygiad honedig o fewn pedwar diwrnod ar ddeg.

12.8 Gall myfyrwyr ofyn am adolygiad o ganlyniad mân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad. Gweler adran 23.

12.9 Lle nad yw'r staff a enwir mewn Athrofeydd neu Wasanaethau Proffesiynol yn siŵr a ydy trosedd neu dramgwydd ymddygiad honedig yn fân neu'n fawr, gellir ceisio cyngor gan y Swyddfa Academaidd.

12.10 Lle bo'r drosedd neu dramgwydd ymddygiad honedig yn fawr neu lle bo mân dramgwyddau ymddygiad lluosog, mynych neu barhaus, neu lle nad yw camau unioni blaenorol wedi llwyddo, disgwylir y bydd materion yn cael eu symud ymlaen i gam ffurfiol, gan ddilyn prosesau ffurfiol camymddwyn anacademaidd ar gyfer troseddau honedig mawr fel y'u nodir yn y polisi hwn. Lle mae prosesau troseddol wedi cychwyn, defnyddir gweithdrefnau ffurfiol bob amser. Ar gyfer tramgwyddau ymddygiad mynych neu barhaus gweler hefyd 6.3 a 19.5.

# 13 Prosesau Troseddol

13.1 Os cychwynnir prosesau troseddol allanol mewn cysylltiad â'r camymddwyn honedig, gall fod angen addasu'r gweithdrefnau a nodir yn y polisi hwn. Fel arfer trafodir unrhyw addasiadau â phob parti.

13.2 Mae'n ofynnol i Athrofa neu Wasanaeth Proffesiynol roi gwybod i'r Swyddfa Academaidd cyn gynted ag y bo'n ymwybodol bod prosesau troseddol wedi'u cychwyn mewn cysylltiad ag un o'i myfyrwyr/fyfyrwyr.

13.3 Fel arfer bydd unrhyw broses droseddol yn cymryd blaenoriaeth dros broses camymddwyn anacademaidd fewnol y Brifysgol. Cymerir gofal na fyddai unrhyw ddyblygu o ran proses ac fel arfer ni ddylai unrhyw broses arall weithredu ar yr un pryd. Ar wahân i unrhyw gamau rhagofalus (gweler adran 17), fel arfer atelir y broses fewnol nes bod y broses droseddol ar ben. Er enghraifft, gall y Brifysgol weithredu dan ei gweithdrefn camymddwyn anacademaidd ar yr un pryd â phroses droseddol os seilir yr achos ar ffeithiau a materion sy'n wahanol i'r rheini yr ymdrinnir â nhw dan y broses droseddol.

13.4 Ar bob cam allweddol (er enghraifft, ar gychwyn achos troseddol allanol, os nad ymdrinnir â'r mater dan y broses droseddol neu lle mae'r achos troseddol wedi gorffen), bydd y Brifysgol yn ystyried a ddylai gychwyn camau.

13.5 Os ydy'r myfyriwr wedi'i gael yn euog o drosedd yn erbyn y gyfraith, cymerir y canlyniad hwn i ystyriaeth gan y Brifysgol mewn cysylltiad â'r canlyniad(au), os oes rhai, i'w cymhwyso gan y Brifysgol.

13.6 Os ydy'r myfyriwr wedi'i gael yn ddieuog o drosedd yn erbyn y gyfraith, gall y Brifysgol barhau i gymryd camau yn erbyn y myfyriwr os oes digon o dystiolaeth bod tramgwydd ymddygiad wedi digwydd dan weithdrefnau camymddwyn anacademaidd y Brifysgol.

13.7 Bydd y Brifysgol yn cynorthwyo achwynwyr i ddeall yr opsiynau amrywiol sydd ar gael iddynt a bydd yn darparu cymorth wrth eu helpu i wneud penderfyniad am y ffordd ymlaen. Y nod yw sicrhau y bydd yr achwynydd yn deall y broses yn gysylltiedig â phob opsiwn, yn deall y gwahaniaeth rhwng ymchwiliadau/achosion troseddol ac ymchwiliadau/achosion y Brifysgol, ac felly bydd yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid cychwyn achos troseddol.

13.8 Mae opsiwn gan yr achwynydd i ofyn i'r Brifysgol ymdrin â'r mater dan ei phrosesau ei hun (h.y. fel tramgwydd ymddygiad posibl) os penderfyna beidio â rhoi gwybod i'r heddlu neu os penderfyna'r heddlu beidio ag ymchwilio neu os penderfyna'r erlynydd beidio ag erlyn.

13.9 Mewn amgylchiadau penodol yn unig,[5] a chan ystyried ei hymrwymiadau dan y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, y bydd y Brifysgol yn rhoi adroddiad am ddigwyddiad i'r heddlu'n groes i ddymuniadau'r rheini yr effeithir arnynt. Esbonnir camau o'r fath i'r rheini yr effeithir arnynt er mwyn iddynt ddeall beth sy'n digwydd a'u bod yn barod os/pryd cysyllta'r heddlu â nhw.

# 14 Gweithdrefnau: egwyddorion cyffredinol

14.1 Ymdrinnir â phob honiad o gamymddwyn mawr gan aelod annibynnol priodol o'r Brifysgol (=Swyddog Achosion).

[5] E.e. gweler gweithdrefnau Prevent y Brifysgol neu pryd gallai diogelwch myfyrwyr a staff fod mewn perygl.

14.2 Dylid darllen cyfeiriadau yn y polisi hwn at gamau neu weithredoedd gan ddeiliaid swyddi penodol yn y Brifysgol fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at eu henwebeion. Yn ogystal, er mwyn osgoi oedi neu wrthdaro posibl rhwng cyfrifoldebau, caiff aelodau eraill o'r staff gyflawni tasgau a ddynodwyd i ddeiliaid swyddi penodol.

14.3 Amlinellir gweithdrefnau ar gyfer mân droseddau a throseddau mawr yn y polisi hwn a disgrifiant brosesau mewnol y Brifysgol ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn anacademaidd. Wrth geisio sicrhau dull a defnydd cyson, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i amrywio union fanylion y weithdrefn a gymhwysir i amgylchiadau achos penodol, er enghraifft er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd gwirioneddol a/neu ganfyddedig rhwng yr achwynydd a'r myfyriwr.

14.4 Ble bynnag y bo modd, bydd y Brifysgol yn ceisio glynu wrth y terfynau amser a nodir yn y gweithdrefnau hyn, ond mewn achosion lle ceir amgylchiadau arbennig sy'n gofyn am amrywio terfynau amser a bennwyd, caiff y myfyriwr wybod am y rhesymau dros hyn. Caiff yr achwynydd a'r tystion wybod hefyd am unrhyw oedi yn y broses fel y bo'n briodol.

14.5 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i beidio â chymryd camau pellach ar wahanol adegau yn y gweithdrefnau os ydy'n briodol (e.e. os bydd tystiolaeth annigonol i gefnogi honiad o gamymddwyn).

14.6 Os daw'n amlwg wrth ddefnyddio'r polisi hwn bod materion sy'n effeithio ar garfan neu grŵp o fyfyrwyr y tu hwnt i'r honiadau uniongyrchol, ceidw'r Brifysgol yr hawl i ofyn bod ystod o fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn rhan o unrhyw honiadau) yn cytuno i gytundeb ymddygiad i sicrhau bod pob parti'n gallu dychwelyd i astudio gyda'i gilydd. Nid yw'r Brifysgol yn ystyried bod y cytundebau a osodir ar bartïon eraill yn gosbau, ond yn estyniad i God Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol.

14.7 Wrth ddefnyddio'r polisi hwn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ohirio unrhyw ymchwiliad neu wrandawiad ac ailymgynnull maes o law.

14.8 Os bydd y myfyriwr, yn ystod cyfnod gweithredu'r polisi hwn, wedi peidio â bod yn fyfyriwr yn y Brifysgol, gall y Brifysgol ohirio unrhyw ymchwiliad neu wrandawiad. Ceidw'r hawl i ailymgynnull os bydd y myfyriwr yn dymuno dychwelyd i'r Brifysgol.

14.9 Rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i'r myfyriwr cyn gynted ag y bo'n bosibl ac yn briodol wedi'r digwyddiad sy'n rhoi sail i'r honiad, neu wedi derbyn y gŵyn am y digwyddiad. Rhoddir tystiolaeth gefnogol fel y bo'n briodol i esbonio'r honiad i'r myfyriwr. Gweler hefyd 6.14.

14.10 Disgwylir y bydd myfyrwyr, eu cynrychiolwyr a staff yn ymddwyn yn rhesymol ac yn deg tuag at ei gilydd ac y byddant yn trin y broses â pharch.

14.11 Os newidir yr honiad, neu os gwneir honiadau newydd, er enghraifft o ganlyniad i'r broses ymchwilio, rhoddir gwybod am y rhain i'r myfyriwr a chaiff gyfle i ymateb.

14.12 Pan fo'n bosibl ac yn ymarferol, caiff y myfyriwr gyfle i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd neu wrandawiadau sy'n gysylltiedig â'r achos camymddwyn anacademaidd neu unrhyw apêl. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fwrw ymlaen ag unrhyw gyfarfod ymchwilio, gwrandawiad neu gyfarfod camymddwyn anacademaidd yn absenoldeb y myfyriwr, yn amodol ar roi gwybod yn gywir i'r myfyriwr am ddyddiad ac amser y gwrandawiad neu mewn achosion lle, er enghraifft, nad yw achos troseddol yn caniatáu i'r myfyriwr fod yn bresennol ei hun.

14.13 Cynhelir cyfarfodydd, gwrandawiadau neu baneli fel arfer drwy ddulliau electronig.

14.14 Yn achos unrhyw droseddau ymddygiad mawr honedig, gwahoddir y myfyriwr i unrhyw gyfarfod neu wrandawiad, fel arfer o leiaf dau ddiwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, efallai bydd amgylchiadau pan fydd angen asesiad risg neu ymchwiliad ar frys ac yn yr achos hwn, rhoddir gwahoddiad llafar gyda llai na dau ddiwrnod o rybudd. Yn achos mân droseddau neu dramgwyddau ymddygiad honedig, fel arfer rhoddir rhybudd o un diwrnod gwaith clir.

14.15 Gall methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod heb i'r myfyriwr roi gwybod yn briodol na all ddod i gyfarfod o'r fath heb reswm da, arwain at gamau disgyblu ychwanegol. Lle penderfyna'r myfyriwr adael unrhyw gyfarfod yn gysylltiedig â'r broses, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i barhau â chyfarfod o'r fath.

14.16 Pan fydd y myfyriwr wedi cyfleu mewn ymateb i hysbysiad o gyfarfod na all ddod i gyfarfod am reswm da, fel arfer bydd y Brifysgol yn aildrefnu dyddiad cyfarfod o'r fath.

14.17 Caiff y myfyriwr yr hawl i fynd â pherson sy'n cynorthwyo o'i ddewis yn gwmni i unrhyw gyfarfod ymchwilio neu wrandawiad. Rhaid i'r person sy'n cynorthwyo gael ei benodi a chydymffurfio â'r weithdrefn a nodwyd yn y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.

14.18 Caiff y myfyriwr wybod pwy yw'r Swyddog Achosion ac, os cynhelir un, pwy yw aelodau Panel Ffurfiol.

14.19 Lle bo'n bosibl, yn ymarferol ac yn briodol, rhoddir cyfle i'r achwynydd fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Ffurfiol (gweler Atodiad SC15). Caiff yr achwynydd yr hawl i fynd â rhywun o'i ddewis yn gwmni i unrhyw gyfarfod ymchwilio, gwrandawiad neu gyfarfod o'r Panel Ffurfiol ac mae gofyn iddo roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Brifysgol cyn unrhyw gyfarfod neu wrandawiad a ydy am fynd â rhywun yn gwmni. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae angen gwneud cais o'r fath am gynrychiolaeth gyfreithiol yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd. Fel arfer ni fydd y sawl a ddaw'n gwmni'n cyfrannu i'r trafodaethau.

14.20 Bydd y panel yn gallu gofyn cwestiynau gan y myfyriwr a'r achwynydd yn rhan o'r prosesau a ddisgrifir yn atodiad SC15. Ni all y myfyriwr a'r achwynydd groesholi'i gilydd a gallant ofyn cwestiynau, yn cynnwys cwestiynau i'r tystion, drwy gadeirydd y panel yn unig.

14.21 Ni chaiff cyfarfodydd eu recordio fel arfer ac nid yw'r Brifysgol yn caniatáu i unrhyw gyfarfodydd gael eu recordio'n gudd. Darperir nodiadau neu gofnodion ar gyfer pob cyfarfod a gynhelir. Gofynnir i bob parti perthnasol lofnodi ar gyfer unrhyw ddatganiadau. Lle ceir anghytuno na ellir ei ddatrys, gellir cyflwyno dau fersiwn i'r Panel Ffurfiol neu'n rhan o adolygiad.

14.22 Caiff hawliau a buddiannau'r myfyriwr ac unrhyw achwynydd/achwynwyr am y camymddwyn honedig eu cydbwyso'n deg ac yn gyfartal.

14.23 Rhoddir gwybod am gynnydd ei gŵyn i'r achwynydd fel y bo'n briodol.

14.24 Caiff yr holl bartïon perthnasol gopi o'r polisi a'r gweithdrefnau hyn.

14.25 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl gofnodion ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r achos yn glir, yn gywir ac yn briodol ac y cânt eu storio'n unol â deddfwriaeth diogelu data berthnasol.

# 15 Rhoi gwybod am Drosedd neu Dramgwydd Ymddygiad Mawr honedig

15.1 Dylid anfon adroddiad am y drosedd honedig i'r Swyddfa Academaidd ar Ffurflen Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol (SC08).

15.2 Gall y Brifysgol hefyd gychwyn ymchwiliad pan y'i hysbysir am drosedd neu dramgwydd ymddygiad mawr honedig trwy ryw ddull arall.

15.3 Mewn achos o honiad gan grŵp yn erbyn unigolyn, rhaid cyflwyno Ffurflen Cydsyniad Grŵp gyda'r ffurflen.

15.4 Ni fyddai'r Brifysgol fel arfer yn ystyried honiadau dienw. Fodd bynnag, ceidw'r Brifysgol yr hawl i weithredu o ganlyniad i honiad dienw fel y bo'n briodol. Bydd y Brifysgol hefyd yn rhoi ystyriaeth i honiadau dienw yn ei gwaith monitro ac adrodd.

15.5 Pan wneir cwyn yn erbyn myfyriwr arall neu aelod o staff, fel arfer mae ganddynt hawl i wybod pwy sydd wedi gwneud y gŵyn a manylion y gŵyn a wnaed.

15.6 Mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, gall y Brifysgol ystyried cadw hunaniaeth yr achwynydd yn anhysbys.

15.7 Os yw myfyrwyr o'r farn fod ganddynt ddigon o gyfiawnhad i aros yn ddienw, dylent gyflwyno eu rhesymau yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd i'w hystyried. Bydd y Swyddfa Academaidd yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad y cais i aros yn ddienw o fewn 7 diwrnod.

15.8 Rhaid i honiadau ddod i law ddim mwy na mis wedi i'r weithdrefn anffurfiol ddod i ben (lle bo'n briodol) ac fel arfer ddim mwy na 6 mis wedi i'r prif faterion ddigwydd.

15.9 Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried unrhyw drosedd lle digwyddodd y prif faterion a godwyd fwy na 3 blynedd cyn i'r honiadau ddod i law.

# 16 Prosesau'n ymwneud â mwy nag un myfyriwr

16.1 Mewn achosion o gŵyn am grŵp, fel arfer penodir llefarydd/cynrychiolydd.

16.2 Mewn achosion o honiad am ddau unigolyn neu am grŵp, cymerir gofal i sicrhau y caiff yr holl fyfyrwyr gyfle cyfartal i glywed ac ymateb i'r honiadau a wneir yn eu herbyn. Byddant hefyd yn gallu clywed ac ymateb i'r hyn y mae pobl eraill wedi'i ddweud ac i dystiolaeth y mae pobl eraill wedi'i darparu.

16.3 Lle bo'n bosibl ac yn ymarferol, gwrandewir ar honiadau yn erbyn dau neu grŵp mewn un cyfarfod panel gyda'r holl fyfyrwyr yn bresennol. Rhoddir cyfle i bob myfyriwr, fel arfer yn rhan o'r prosesau ymchwilio, godi materion cyfrinachol neu sensitif yn gysylltiedig â lliniaru mewn preifatrwydd.

16.4 Lle nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cynnal un cyfarfod panel ar gyfer honiadau yn erbyn dau neu grŵp, fel arfer bydd yr un panel yn ystyried yr achos yn erbyn yr holl fyfyrwyr sydd ynghlwm â'r achos er mwyn sicrhau y defnyddir dulliau cyson.

16.5 Ni ellir dod i benderfyniadau diofyn yn achos honiadau yn erbyn dau neu grŵp.

16.6 Cymerir penderfyniad ynghylch y canlyniad ar gyfer pob myfyriwr yn unigol, gan gymryd i ystyriaeth ei amgylchiadau penodol a ffactorau lliniaru. Fodd bynnag, bydd cysondeb bras yn y gosb a roddir i'r holl fyfyrwyr sy'n cyflawni'r un drosedd mewn amgylchiadau tebyg.

## 17 Camau rhagofalus ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig

17.1 Nid yw'r Brifysgol yn ystyried bod y camau rhagofalus yn ddyfarniad disgyblu.

17.2 Lle bo ansicrwydd a ddylid categoreiddio trosedd honedig yn fân drosedd neu'n drosedd fawr, ac yn achos pob trosedd neu dramgwydd ymddygiad mawr (honedig), cynhelir asesiad risg ffurfiol ar gam cynnar yn yr achos er mwyn asesu a oes risg i unrhyw aelod(au) o gymuned y Brifysgol neu risg i'r myfyriwr, gan ddefnyddio'r ffurflen asesiad risg. Bydd yr asesiad risg yn cynnwys ystyried trefniadau cymorth y mae angen eu rhoi yn eu lle ar gyfer pob parti sydd ynghlwm.

17.3 Bydd angen cymryd camau rhagofalus yn arbennig o gyflym mewn rhai achosion, yn cynnwys y canlynol:

- Achosion sy'n ymwneud â bygythiad neu niwed difrifol i'r myfyriwr a/neu bobl eraill;
- Achosion lle mae iechyd meddwl y myfyriwr mewn perygl neu lle mae'r myfyriwr yn arddangos trallod sylweddol;
- Materion o natur sensitif iawn;
- Pan fo risg posibl i enw da neu weithrediad y Brifysgol os nad yw'n gweithredu ar unwaith;
- Achosion sy'n ymwneud â bygythiad parhaus o darfu difrifol ar fyfyrwyr eraill neu ar weithgareddau'r Brifysgol.

17.4 Fel arfer cynhelir asesiadau risg gan y Swyddog Achosion ond hefydd gall Uwch Swyddog priodol yn y Brifysgol eu cynnal, yn enwedig mewn cysylltiad ag achosion â risgiau brys, lefel uchel fel y'i disgrifir yn 17.3

17.5 Fel arfer cwblheir y broses asesiad risg gychwynnol o fewn saith diwrnod. Efallai bydd angen amser ychwanegol i ystyried a chymeradwyo set o addasiadau rhesymol a threfniadau cymorth, yn enwedig lle bo angen tystiolaeth allanol. Hefyd gall fod angen amser ychwanegol pan fydd achos troseddol wedi cychwyn.

17.6 Adolygir mesurau rhagofalus yn rheolaidd a'u hailystyried wrth i'r achos ddatblygu ac ar gamau allweddol o fewn y broses yn gyffredinol.

17.7 Lle bo'n bosibl ac yn briodol, ymgynghorir â'r myfyriwr a'r achwynydd yn rhan o'r asesiad risg er mwyn cynrychioli'u barn mewn cysylltiad â'i rhan/ran o'r asesiad.

17.8 Os bydd lefelau risg yn uchel, gellir gosod mesurau rhagofalus. Gellir cyflwyno mesurau rhagofalus os ydynt yn angenrheidiol:

- er mwyn sicrhau y gellir cynnal ymchwiliad llawn a phriodol (naill ai gan yr heddlu neu Swyddog Achosion o'r Brifysgol); a/neu
- er mwyn diogelu'r achwynydd neu bobl eraill tra ymdrinnir â'r honiad yn rhan o broses droseddol neu broses camymddwyn anacademaidd.

17.9 Rhaid i’r camau rhagofalus fod yn rhesymol ac yn gymesur a gallent gynnwys gosod rhai amodau, gohirio astudiaethau, neu wahardd o unrhyw un neu bob un o diroedd a/neu gyfleusterau’r Brifysgol wrth ddisgwyl canlyniad achos troseddol/camymddwyn anacademaidd. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau’r Brifysgol oddi ar y campws, megis teithiau maes, lleoliadau neu deithiau cyfnewid. Gall y gohirio a/neu’r gwahardd fod yn amodol neu’n rhannol pan fo’n briodol a bydd ar gyfer cyfnod penodol yn y lle cyntaf.

17.10 Rhaid i fesurau rhagofalus (yn cynnwys ymestyn y mesurau hyn) sy’n golygu gohirio astudiaethau’n llwyr a/neu waharddiad llwyr o’r cyfleusterau gael eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

17.11 Ni ddylid ystyried gohirio, gwahardd neu set o amodau rhagofalus yn gosb ac nid yw'n nodi bod y myfyriwr wedi cyflawni tramgwydd ymddygiad neu drosedd yn erbyn y gyfraith.

17.12 Pan roddir mesurau rhagofalus yn eu lle, caiff y myfyriwr wybod am y rhain yn ysgrifenedig ac esbonnir y rhesymau dros y set o fesurau. Gellir cynnal cyfarfod i esbonio mesurau rhagofalus. Yn achos risgiau brys, gellir rhoi gwybod i’r myfyriwr ar lafar yn y lle cyntaf.

17.13 Caiff y myfyriwr apelio yn erbyn y mesurau rhagofalus a osodir,[6] trwy gyflwyno cais ysgrifenedig sy’n datgan y rheswm dros yr apêl i’r Swyddfa Academaidd o fewn saith diwrnod i’r dyddiad a nodwyd ar yr hysbysiad o fesurau rhagofalus. Caiff y myfyriwr wybod am y penderfyniad terfynol ynghylch ei apêl ymhen pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl derbyn y llythyr sy’n gwneud cais am apêl.

17.14 Tra bydd y mesurau rhagofalus ar waith, caiff y myfyriwr wneud cais i adolygu’r gohirio, y gwahardd neu’r set o amodau os bydd newid perthnasol yn ei amgylchiadau. Dylid gwneud y cais hwn yn ysgrifenedig i’r Swyddfa Academaidd, a fydd fel arfer yn ymateb ymhen pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl cael y llythyr.

17.15 Os na fydd myfyriwr yn cydymffurfio ag unrhyw un o’r mesurau rhagofalus, adolygir y mesurau rhagofalus a gallai mai’r canlyniad fydd gosod mesurau rhagofalus mwy difrifol.

17.16 Rhoddir gwybod i’r achwynydd fel y bo’n briodol am y mesurau rhagofalus a gymerir.

17.17 Os cymerir camau rhagofalus, ceidw’r Brifysgol yr hawl i hysbysu darparwyr gwasanaeth perthnasol neu bartneriaid perthnasol am y camau a allai arwain at ddiffyg mynediad i rai gwasanaethau.

# 18 Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i droseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig

18.1 Cymerir gofal i sicrhau bod y Swyddog Achosion a benodir yn ddiduedd. Fel arfer bydd y Swyddog Achosion yn aelod o staff y Brifysgol, ond mewn amgylchiadau eithriadol, gallai fod yn allanol i’r Brifysgol.

18.2 Os oes unrhyw bryderon ynghylch y Swyddog Achosion, gofynnir i bartïon fynegi’r pryderon hynny’n ysgrifenedig i’r Swyddfa Academaidd a fydd yn ystyried unrhyw bryderon o'r fath.

[6] Lle bu rhaid cymryd camau er mwyn lliniaru risgiau brys, neu mae amodau wedi’u gosod gan yr heddlu neu asiantaethau allanol eraill (e.e. UKVI), efallai na fydd yn bosibl apelio yn erbyn y set lawn o fesurau rhagofalus.

18.3 Diben yr ymchwiliad yw casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn sefydlu'r ffeithiau yn gysylltiedig â'r honiad o gamymddwyn, argymell a oes angen cyfeirio'r achos at Banel Ffurfiol ai peidio, a helpu i wneud penderfyniad gwybodus a rhesymedig.

18.4 I'r perwyl hwn, bydd y Swyddog Achosion yn ceisio casglu a gwerthuso tystiolaeth er mwyn dilysu'r honiadau, yn cyfweld â phartïon perthnasol a thystion, yn cwestiynu anghysonderau ac yn gwneud canfyddiadau ffeithiol yn ôl yr hyn sy'n debygol.

18.5 Rhoddir gwybod i'r holl bartïon am gwmpas a chylch gwaith yr ymchwiliad.

18.6 Yn rhan o ymchwiliad, fel arfer caiff yr holl bartïon eu cyfweld ar wahân. Rhoddir gwybod i'r holl bartïon sut y defnyddir ac y rhennir eu tystiolaeth er mwyn iddynt ddeall y broses a gallu rhoi cydsyniad gwybodus.

18.7 Fel arfer cyfarfyddir ag unrhyw dystion yn rhan o'r ymchwiliad hefyd. Er mwyn helpu gyda'r ymchwiliad, gofynnir i'r holl bartïon nodi a oes unrhyw dystion perthnasol y mae angen ymgynghori â nhw. Gweler hefyd 22.3

18.8 Gofynnir i dystion lofnodi'u datganiad tyst a gofynnir iddynt roi cydsyniad ysgrifenedig i'w tystiolaeth gael ei defnyddio ac i ddatgelu pwy ydynt mewn panel disgyblu. Gweler hefyd 25.3.

18.9 Yn rhan o ymchwiliad, bydd y Swyddog Achosion fel arfer yn ymgynghori â'r myfyriwr i egluro'r camymddwyn honedig ac yn rhoi cyfle i'r myfyriwr ymateb i'r honiad, a rhoi i'r Swyddog Achosion unrhyw dystiolaeth yr hoffai iddi gael ei chymryd i ystyriaeth.

18.10 Fel arfer daw holl broses yr ymchwiliad i ben ymhen 40 diwrnod.

18.11 Unwaith bod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y Swyddog Achosion yn cyflwyno'i ganfyddiadau ymchwilio i'r Swyddfa'r Academaidd ac yn gwneud argymhelliad ynghylch a ydy'r achos yn un cymhleth ai peidio ac a oes angen iddo fynd ymlaen at Banel Ffurfiol.

18.12 Os nad yw'r Swyddog Achosion yn eglur ynghylch a ddylid categoreiddio'r drosedd fawr honedig yn achos cymhleth neu anghymhleth, bydd y Swyddog Achosion yn cyfeirio'r achos at y Swyddfa Academaidd, gan ddarparu manylion y digwyddiad honedig a'r ymchwiliad iddo, er mwyn gallu gwneud penderfyniad terfynol ynghylch ei ddosbarthiad.

## 19 Canlyniadau

19.1 Mae'r canlynol yn rhestru'r canlyniadau posibl y gellir eu gosod ar bob cam o'r broses.

19.1.1 Categori A: Mân Droseddau[7]

- Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol;
- Gofyniad i lofnodi contract ymddygiad;
- Dirwy ohiriedig o nid llai na £25 ond heb fod yn fwy na £500
  - bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig am yr amgylchiadau pryd byddai rhaid talu'r ddirwy);
- Dirwy o nid llai na £25 ond heb fod yn fwy na £500 fesul trosedd

[7] Nid yw Athrofeydd yn gallu gosod dirwyon; gall Gwasanaethau Proffesiynol perthnasol osod dirwyon am fân droseddau yn unig.

- Adfer difrod;
- Gofyniad i ymddiheuro'n ysgrifenedig i unrhyw barti dan sylw;
- Gofyniad i ddileu deunydd a gyhoeddwyd ar ffurf copi caled neu'n electronig yr ystyrir ei fod yn amhriodol;
- Gofyniad i fynychu gweithdy neu gwrs o fewn cyfnod penodedig o amser ar draul y myfyriwr;
    - Hysbysir y myfyriwr am unrhyw ffioedd y bydd angen iddo eu talu i fynychu'r sesiwn/seminar na fydd fel arfer yn fwy na £40;
- Gofyniad i ymgysylltu â gwasanaeth cymorth priodol;
- Cyfryngu;
- Gofyniad i ymgymryd â gwasanaeth priodol o fewn y gymuned (heb fod yn fwy nag 20 awr).

Lle bo'n berthnasol, bydd y Brifysgol yn pennu'r amserlen i'w dilyn gan y myfyriwr ar gyfer cydymffurfio â'r sancsiwn a weithredir.

19.1.2 Categori B: Troseddau Mawr neu Fân Droseddau mynych (anghymhleth)

- Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol;
- Gofyniad i lofnodi contract ymddygiad;
- Gofyniad i ymddiheuro'n ysgrifenedig i unrhyw barti dan sylw;
- Cyfryngu;
- Gofyniad i ddileu deunydd a gyhoeddwyd ar ffurf copi caled neu'n electronig yr ystyrir ei fod yn amhriodol;
- Dirwy ohiriedig o nid llai na £50 ond heb fod yn fwy na £500 (bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig am yr amgylchiadau pryd byddai rhaid talu'r ddirwy);
- Dirwy o nid llai na £50 ond heb fod yn fwy na £500 fesul trosedd;
- Gofyniad i fynychu gweithdy neu gwrs o fewn cyfnod penodedig o amser ar draul y myfyriwr;
    - Gall cynnydd y myfyriwr o fewn y rhaglen fod yn amodol ar ei chwblhau a gallai hyn arwain at oedi cyn y gall y myfyriwr sicrhau dilyniant neu raddio;
- Gofyniad i ymgysylltu â gwasanaeth cymorth priodol;
- Gofyniad i ddigolledu neu dalu iawndal am unrhyw ddifrod neu golled o ran eiddo;
- Cyfyngiad ar gysylltu ag unrhyw barti dan sylw, lle mae'r parti dan sylw yn aelod o'r Brifysgol;
- Cyfyngiad sy'n gwahardd y myfyriwr rhag cynrychioli'r Brifysgol mewn swydd gyflogedig neu ddi-dâl am gyfnod penodol o amser
    - Gallai hyn gynnwys cyflogaeth achlysurol gan y Brifysgol, dal swyddi yng nghlybiau neu gymdeithasau chwaraeon y Brifysgol, cynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau neu swyddi gwirfoddol megis Cynrychiolydd Myfyrwyr;
- Gofyniad i ymgymryd â gwasanaethau di-dâl i'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr neu'r gymuned hyd at uchafswm o 28 awr;
- Gwaharddiad o unrhyw ardal / adeiladau yn y Brifysgol a/neu o gyfleusterau / gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol am gyfnod penodol o amser;
- Gofyniad i ohirio astudiaethau yn rhannol neu'n llwyr am gyfnod penodol o amser;
- Gwaharddiad (h.y. tynnu'n ôl) o'r Brifysgol gyda neu heb yr hawl i ail-ymgeisio ar gyfer unrhyw raglen astudio bellach yn PCYDDS neu unrhyw Brifysgol bartner.
    - Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y canlyniadau'n nodi a ddylid ystyried y myfyriwr yn gymwys i gael dyfarniad ymadael gan y bwrdd arholi priodol nesaf).
    - Mae angen cymeradwyaeth Dirprwy Is-Ganghellor
- Gosod unrhyw sancsiwn arall a ystyrir yn briodol i'r drosedd.

Lle bo'n berthnasol, bydd y Brifysgol yn pennu'r amserlen i'w dilyn gan y myfyriwr ar gyfer cydymffurfio â'r sancsiwn a weithredir.

19.1.3 Categori C: Troseddau Mawr neu Fân Droseddau mynych (cymhleth)

- Unrhyw rai o'r cosbau yng Nghategori A B.
- Gofyniad i fynychu gweithdy neu gwrs o fewn cyfnod penodol o amser ar draul y myfyriwr;
  - Gall cynnydd y myfyriwr o fewn y rhaglen fod yn amodol ar ei chwblhau a gallai hyn arwain at oedi cyn y gall y myfyriwr sicrhau dilyniant neu raddio;
- Gofyniad i ymgysylltu â gwasanaeth cymorth priodol;
- Cyfryngu;
- Camau adferol megis cwblhau datganiad neu brosiect adfyfyriol
  - Gall cynnydd y myfyriwr o fewn y rhaglen fod yn amodol ar ei chwblhau a gallai hyn arwain at oedi cyn y gall y myfyriwr sicrhau dilyniant neu raddio;
- Gosod dirwy;
- Gofyniad i ymgymryd â gwasanaethau di-dâl i'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr neu'r gymuned hyd at uchafswm o 50 awr;
- Gwaharddiad o unrhyw ardal / adeiladau yn y Brifysgol a/neu o gyfleusterau / gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol am gyfnod penodol o amser;
- Gofyniad i ohirio astudiaethau yn rhannol neu'n llwyr am gyfnod penodol o amser;
- Oedi cyn graddio;
- Gwaharddiad (h.y. tynnu'n ôl) o'r Brifysgol gyda neu heb yr hawl i ail-ymgeisio ar gyfer unrhyw raglen astudio bellach yn PCYDDS neu unrhyw Brifysgol bartner.
  - Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Panel Ffurfiol yn ystyried a ddylid barnu bod y myfyriwr yn gymwys i gael dyfarniad ymadael gan y bwrdd arholi priodol nesaf).
  - Mae angen cymeradwyaeth Dirprwy Is-Ganghellor
- Gosod unrhyw sancsiwn arall a ystyrir yn briodol i'r tramgwydd.

Lle bo'n berthnasol, bydd y Brifysgol yn pennu'r amserlen i'w dilyn gan y myfyriwr ar gyfer cydymffurfio â'r sancsiwn a weithredir.

19.2 Mae Atodiad D yn rhoi syniad o'r canlyniadau y gellir eu gosod ar fyfyrwyr o ran tramgwyddau penodol. Bydd unrhyw ganlyniadau'n rhesymol ac yn gymesur â'r camymddwyn y cafwyd ei fod wedi digwydd.

19.3 Bydd penderfyniad ynghylch canlyniad yn cymryd i ystyriaeth fel y bo'n briodol amgylchiadau penodol myfyriwr (e.e. amgylchiadau lliniarol ac anableddau datganedig) yn ogystal ag effeithiau anfwriadol (e.e. mewn cysylltiad ag anabledd datganedig neu statws fisa myfyriwr rhyngwladol). Gweler hefyd adran 9.

19.4 Pan fydd myfyriwr yn addef trosedd, fe'i gwneir yn llawn ymwybodol o ganlyniadau cytuno i gosb. Er enghraifft, dywedir wrtho a gofnodir y drosedd ar ei gofnodion myfyriwr ac a gymerir y drosedd i ystyriaeth mewn gweithdrefnau camymddwyn anacademaidd neu addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol.

19.5 Gall digwyddiadau camymddwyn lluosog neu fynych fod yn fwy difrifol nag un achos o gamymddwyn. Fel arfer ni fydd cofnod blaenorol myfyriwr yn berthnasol mewn cysylltiad ag a ydy wedi cyflawni trosedd. Fodd bynnag mae'n debygol y bydd yn berthnasol i drafodaethau am y canlyniad.

19.6 Wrth osod unrhyw ganlyniadau bydd y Brifysgol yn penderfynu'r canlynol:

a. a yw'n debygol bod y ffeithiau a'r materion a honnir wedi digwydd;
b. a ydy'r ffeithiau a'r materion hynny'n gyfystyr â thramgwydd ymddygiad ac, os felly, lefel difrifoldeb y tramgwydd ymddygiad;
c. pa ganlyniad (os un o gwbl) y dylid ei osod.

19.7 Bydd angen i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) gymeradwyo'r penderfyniad i derfynu astudiaethau'r myfyriwr yn y Brifysgol yn barhaus, gyda hysbysiad yn cael ei roi i Gadeirydd a Chlerc y Cyngor.

19.8 Cyflëir y canlyniadau fel y bo'n briodol i staff perthnasol yn unig. Rhoddir gwybod i Fyrddau Arholi er mwyn i benderfyniadau camymddwyn anacademaidd gael eu nodi a'u cymhwyso.

# 20 Ailystyried yr un drosedd

20.1 Gall y Brifysgol ailystyried honiad os daw tystiolaeth newydd i'r golwg nad oedd modd, am reswm da, i'r Brifysgol fod wedi'i chael ar y pryd.

20.2 Wrth benderfynu a ydy'n briodol ystyried honiad am yr ail dro, bydd y Brifysgol yn ystyried y canlynol:

- A godwyd amheuaeth ynghylch canlyniad y broses gyntaf, ac os felly pam;
- Hyd yr amser sydd wedi mynd heibio ac effaith hyn ar ddibynadwyedd unrhyw dystiolaeth sydd i'w hystyried;
- Difrifoldeb y drosedd honedig;
- Effaith mynd drwy ail weithdrefn camymddwyn anacademaidd ar y myfyriwr;
- A fyddai gadael y mater heb fynd i'r afael ag ef yn cael effaith ar faterion addasrwydd i ymarfer neu ar unrhyw rwymedigaethau sydd gan y Brifysgol i gyrff proffesiynol neu reoleiddio ynghylch cymeriad myfyriwr penodol.

# 21 Gweithdrefnau ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig anghymhleth

21.1 Os cadarnheir argymhelliad y Swyddog Achosion bod yr achos yn un anghymhleth gan y Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr, bydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r canlyniad.

21.2 Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr yn esbonio'r rhesymwaith dros y weithdrefn a ddilynwyd ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac yn categoreiddio'r drosedd honedig yn un anghymhleth, ac yn cadarnhau'r canlyniad i'r myfyriwr yn ysgrifenedig, fel arfer ymhen saith diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.

21.3 Gellir cynnal cyfarfod â'r myfyriwr fel y bo'n briodol i drafod ac esbonio'r canlyniadau.

# 22 Gweithdrefnau ar gyfer troseddau neu dramgwyddau ymddygiad mawr honedig cymhleth

22.1 Os cadarnheir argymhelliad y Swyddog Achosion fod y drosedd fawr honedig yn un gymhleth gan y Grŵp Adolygu Achosion Myfyrwyr, bydd yr achos yn symud ymlaen at Banel Ffurfiol.

22.2 Caiff y rhesymwaith dros y weithdrefn a ddilynwyd ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, categoreiddio'r drosedd honedig yn un gymhleth, a'r penderfyniad i symud ymlaen at Banel Ffurfiol eu cyfleu i'r myfyriwr yn ysgrifenedig, fel arfer ymhen saith diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.

22.3 Caiff dyddiad cyfarfod y panel, ei aelodaeth, enwau unrhyw dystion, a fformat y Panel Ffurfiol eu cyfleu i'r myfyriwr cyn yr achos gan y Swyddfa Academaidd, fel arfer heb fod yn llai na phedwar diwrnod ar ddeg cyn y cyfarfod. Os oes angen golygu helaeth ar y dogfennau sydd i'w dosbarthu er mwyn bodloni safonau diogelu data, gellir estyn y cyfnod hwn ar ôl rhoi gwybod yn briodol

22.4 Caiff unrhyw ddogfennau ar gyfer cyfarfod y panel eu dosbarthu i aelodau'r Panel Ffurfiol, y myfyriwr, a'r Swyddog Achosion, fel arfer heb fod yn llai na saith diwrnod cyn y cyfarfod.

22.5 Yn dilyn y cyfarfod rhoddir gwybod am y canlyniad yn ffurfiol i'r myfyriwr yn ysgrifenedig ymhen saith diwrnod ar ôl cyfarfod y Panel Ffurfiol, gan gadarnhau unrhyw ganlyniad a osodwyd.

22.6 Rhoddir gwybod i achwynwyr pan fydd y cam ffurfiol wedi'i gwblhau ac am ganlyniad eu cwyn fel y bo'n briodol.

## 23 Adolygu Canlyniad

23.1 Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y cam ffurfiol, mae'n bosibl y gall wneud cais am adolygiad.

23.2 Gellir gwneud cais am adolygiad ar sail un neu fwy o'r rhesymau canlynol yn unig:

23.2.1 anghysonderau wrth weithredu'r weithdrefn, a natur y rheini yn ddigon i achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na baent wedi digwydd;

23.2.2 bodolaeth tystiolaeth berthnasol newydd na allai'r myfyriwr, oherwydd rhesymau argyhoeddiadol, ei darparu yn gynharach yn y broses;

23.2.3 bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod y canlyniad y daethpwyd iddo ar gam cynharach yn afresymol. Yn y cyd-destun hwn, cymerir bod afresymol yn golygu nad oedd y canlyniad yn gasgliad posibl y gallai gwrandawiad neu broses debyg o ystyriaeth fod wedi dod iddo.

23.3 Os yw achwynydd neu dyst yn anfodlon â chanlyniad y cam ffurfiol, mae'n bosibl y gallant wneud cais am adolygiad.

23.4 Rhaid i unrhyw gais am adolygiad gan achwynydd neu dyst gael ei wneud ar sail un neu fwy o'r canlynol yn unig:

23.4.1 anghysonderau wrth weithredu'r weithdrefn, a natur y rheini yn ddigon i achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na baent wedi digwydd;

23.4.2 bodolaeth tystiolaeth berthnasol newydd na allai'r achwynydd neu'r tyst, oherwydd rhesymau argyhoeddiadol, ei darparu yn gynharach yn y broses;

23.5 Ni chaiff achwynydd neu dyst gyflwyno cais am adolygiad ar y sail eu bod yn anghytuno â chanlyniad yr achos yn unig.

23.6 Rhaid i gais am adolygiad o'r canlyniad ddod i law ar y ffurflen ofynnol ddim mwy na 14 diwrnod ar ôl yr hysbysiad am y canlyniad.

23.7 Ni fernir bod hysbysiad syml o ddymuniad y myfyriwr i wneud cais am adolygiad o fewn y terfyn amser uchod yn gyfystyr â chais ffurfiol am adolygiad ac ni chaiff ei dderbyn.

23.8 Bernir bod cais am adolygiad a ddaw i law ar ôl y terfyn amser uchod yn rhy hwyr ac ni chaiff ei ystyried oni bai bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol pam na chafodd y cais am adolygiad ei gyflwyno'n amserol.

23.9 Os bernir bod cais am adolygiad yn rhy hwyr, bydd y Brifysgol, ar gais, yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi'r rheswm pam na chafodd y cais am adolygiad ei ystyried a chan hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r canlyniad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

23.10 Os oes cais am adolygiad wedi'i gyflwyno, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn sefyll tan fod canlyniad terfynol yr adolygiad yn hysbys. Yn achos myfyrwyr rhyngwladol ar fisâu, os caiff myfyriwr ei dynnu'n ôl drwy'r polisi hwn, gweithredir y penderfyniad ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer adolygiad fynd heibio a/neu fod y broses adolygu wedi'i chwblhau.

23.11 Os na dderbynnir cais am adolygiad o fewn 14 diwrnod, bydd y Brifysgol yn tybio nad yw'r myfyriwr yn dymuno gwneud cais am adolygiad. Os bydd y myfyriwr wedyn yn gofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan nodi nad oedd y myfyriwr wedi dilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am adolygiad yn amserol a chan hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r canlyniad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

23.12 Bydd uwch swyddog addas yn adolygu'r cais i ganfod a yw'r cais yn seiliedig ar resymau a ganiateir ac a oes achos clir wedi'i wneud. Gall ef/hi wrthod unrhyw gais nad yw'n seiliedig ar y rhesymau a nodwyd uchod neu lle mae'n amlwg nad oes achos clir dros adolygu'r canlyniad wedi'i wneud. Hysbysir y myfyriwr trwy lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fod y cais am adolygiad wedi'i wrthod a bod y canlyniad gwreiddiol yn sefyll. Hysbysir y myfyriwr y gall fynd â'r canlyniad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

23.13 Os penderfynir fod y cais yn seiliedig ar resymau a ganiateir a bod achos clir dros adolygu'r canlyniad wedi'i wneud, bydd yr uwch swyddog yn ystyried y cais.

23.14 Wrth ddod i benderfyniad, bydd yr uwch swyddog yn seilio'i benderfyniad ar y dystiolaeth yng nghyflwyniad y myfyriwr ynghyd ag unrhyw dystiolaeth bellach y mae'n ei hystyried yn berthnasol. Fel arfer ni fydd y cam adolygu hwn yn ystyried y materion o'r newydd nac yn cynnwys ymchwiliad pellach. Ni chynhelir cyfarfod yn rhan o'r broses adolygu. Gellir cynnal Panel Ffurfiol dim ond os yw'r mater wedi'i gyfeirio'n ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried.

23.15 Bydd gan yr uwch swyddog yr awdurdod i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

23.15.1 cadarnhau'r canlyniad;

23.15.2 cyfeirio'r mater (yn ôl) i Banel Ffurfiol;

23.15.3 cynnig canlyniad wedi'i addasu.

23.16 Bydd penderfyniad yr uwch swyddog yn derfynol, ac ystyrir bod y mater felly wedi'i gau. Ni fydd trafodaeth bellach ynglŷn â phenderfyniad yr uwch swyddog gyda'r myfyriwr nac unrhyw berson arall. Ni fydd hawl gwneud cais am adolygiad pellach o'r canlyniad.

23.17 Mynegir penderfyniad yr uwch swyddog i'r myfyriwr, fel arfer o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r cais am adolygiad ddod i law, trwy lythyr canlyniad diwygiedig. Os gwrthodir yr adolygiad o'r canlyniad, hysbysir y myfyriwr drwy Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau y gall fynd â'r canlyniad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

23.18 Ar ôl derbyn y Llythyr Canlyniad diwygiedig, os yw'r myfyriwr yn anfodlon â'r canlyniad, gall ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau a fydd yn hysbysu'r myfyriwr y gall fynd â'r canlyniad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch.

## 24 Cwblhau Gweithdrefnau ac Adolygiad Annibynnol

24.1 Rhaid gwneud cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) ar gyfer Addysg Uwch o fewn 12 mis i'r dyddiad y daw'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i rym. Fel arfer, y dyddiad dod i rym yn achos Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yw'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi. Os bernir bod cais am adolygiad yn rhy hwyr neu os gofynnir am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fwy na 30 diwrnod ar ôl yr hysbysiad am y penderfyniad terfynol, fel arfer y dyddiad dod i rym yn achos unrhyw Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau fydd y dyddiad y gwnaed y penderfyniad terfynol. Bydd manylion llawn y weithdrefn ar gael ar wefan yr SDA: www.oiahe.org.uk

## 25 Paramedrau cyfrinachedd

25.1 Bydd y Brifysgol yn ystyried ei rhwymedigaethau dan reoliadau diogelu data perthnasol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyswllt unrhyw wybodaeth a rennir am y camymddwyn (honedig).

25.2 Atgoffir pob parti am y cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau a nodir uchod. Datgelir gwybodaeth yn gysylltiedig â'r achos i gyn lleied o bobl â phosibl.

25.3 Fel arfer ni fydd modd i dystion roi tystiolaeth yn gyfrinachol. Lle bydd tystion yn nodi yr hoffent roi eu gwybodaeth yn gyfrinachol, fel arfer ni ddibynnir ar eu tystiolaeth.

## 26 Llinellau amser safonol

26.1 Ar hyd y polisi sonnir am linellau amser safonol ar gyfer camau allweddol y broses. Lle bynnag y bo modd bydd y Brifysgol yn ceisio glynu wrth y terfynau amser a nodir yn y gweithdrefnau hyn, ond mewn achosion lle mae amgylchiadau arbennig sy'n gofyn am amrywio'r terfynau amser a bennwyd, hysbysir y myfyriwr ac unrhyw bartïon perthnasol eraill am y rhesymau am hyn. Gall fod angen gohirio prosesau (e.e. 10.2 a 13.3).

| Cam allweddol | Llinell amser safonol |
|---|---|
| Hysbysiad o dderbyn cwyn ffurfiol | Ymhen 7 diwrnod |
| Cwblhau gweithdrefnau mân droseddau a thramgwyddau ymddygiad honedig | Ymhen 14 diwrnod ar ôl dechrau'r gweithdrefnau |
| Gwahoddiad i gyfarfodydd yn gysylltiedig â mân droseddau a thramgwyddau ymddygiad honedig | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 1 diwrnod gwaith clir |
| Gwahoddiad i gyfarfodydd yn gysylltiedig â throseddau a thramgwyddau ymddygiad mawr honedig | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 2 ddiwrnod |
| Cwblhau'r broses asesiad risg gychwynnol | Ymhen 7 diwrnod ar ôl dechrau'r broses asesiad risg |
| Cyflwyno apêl yn erbyn mesurau rhagofalus | Ymhen 7 diwrnod ar ôl y dyddiad a nodwyd ar yr hysbysiad o fesurau rhagofalus |
| Cwblhau'r broses ymchwilio | Ymhen 40 diwrnod |

| Cam allweddol | Llinell amser safonol |
|---|---|
| Hysbysiad o ganlyniadau troseddau a thramgwyddau ymddygiad mawr honedig anghymhleth | Ymhen 7 diwrnod ar ôl derbyn y canfyddiadau ymchwilio |
| Hysbysiad symud at banel ar gyfer troseddau a thramgwyddau ymddygiad mawr honedig | Ymhen 7 diwrnod ar ôl derbyn y canfyddiadau ymchwilio |
| Gwybodaeth am fformat y panel, ei aelodaeth, dyddiad a lleoliad | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 14 diwrnod cyn y cyfarfod |
| Dosbarthu unrhyw ddogfennau'n gysylltiedig â'r cyfarfod o'r panel | Rhoddir rhybudd heb fod yn llai na 7 diwrnod cyn y cyfarfod |
| Hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad cyfarfod Panel Disgyblu | Ymhen 7 diwrnod |
| Cwblhau'r broses ffurfiol | Ymhen 80 diwrnod ar ôl yr honiad a wnaethpwyd yn erbyn y myfyriwr (fel arfer ni fyddai'r cyfnod hwn o amser yn cynnwys yr amser a gymerir gan unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad) |
| Adolygiad o ganlyniad | Ymhen 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad o'r canlyniad |
| Hysbysiad o dderbyn y cais am adolygiad | Ymhen 7 diwrnod |
| Hysbysiad o ganlyniad adolygiad | Ymhen 28 diwrnod ar ôl derbyn yr apêl |

## 27 Monitro

27.1 Cyflwynir adroddiad trosolwg achosion disgyblu anacademaidd yn flynyddol i'r Senedd gan y Pro Is-Ganghellor (Profiad Academaidd). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn monitro effeithiolrwydd y polisi.

## 28 Goblygiadau Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | *Hyfforddiant i holl aelodau staff y Brifysgol sy'n rhan o weithdrefnau disgyblu (e.e. Swyddogion Achosion, Cadeiryddion Paneli Ffurfiol, staff sy'n darparu cymorth i unrhyw barti sydd ynghlwm â digwyddiad, uwch aelodau o staff, y rheini sy'n cymryd cofnodion)* |
| Staff | *Ni ragwelir adnoddau ychwanegol.* |
| Asedau | *Ni ddynodwyd unrhyw gostau asedau.* |
| Partneriaid | *Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'r polisi hwn ar draws y grŵp sector deuol.* |
| Amserlen | *Ar ôl derbyn cymeradwyaeth, gweithredir y polisi ar unwaith. Bydd y polisi'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.* |
| Arweinyddiaeth | *PIG (Profiad Academaidd)* |

## 29 Asesu Effaith

| Goblygiad | Ystyriwyd yr Effaith (Do/Naddo) | Yr Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | | *Noda'r polisi'r camau a gymerir os yw'r drosedd hefyd yn destun achos troseddol / camau cyfreithiol. Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r canlynol:*<br>• *Cyfraith contractau a defnyddwyr*<br>• *Esgeulustod (dyletswydd gofal)*<br>• *Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>• *Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>• *Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974*<br>• *Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>• *Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | | *Bydd cydymffurfio â'r polisi'n lliniaru'r risg o gamymddwyn anacademaidd.*<br><br>*Bydd hefyd yn lliniaru hawliadau llys, cwynion i'r SDA, a chwynion i'r ICO.* |
| Cydraddoldeb | | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Y Gymraeg | | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | | *Dim effaith wedi ei dynodi.* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | | *Bydd y polisi ar gael i'r staff a'r myfyrwyr drwy Hwb.* |

Awdur y polisi: Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor

Rheoli fersiynau'r ddogfen

| Rhif y Fersiwn | Rheswm dros y newid | Awdur | Dyddiad Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | MP | 26.10.16 |
| 0.2 | Adborth yn dilyn PPA | MP | 10.11.16 |
| 0.3 | Adborth yn dilyn y Senedd | MP | 23.11.16 |
| 0.4 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | MP | 08.10.17 |
| 0.5 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | MP | 06.11.18 |
| 1.0 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | KE | 25.08.20 |
| 1.1 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | CP | 15.09.21 |
| 1.2 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | MO | 08.09.22 |
| 1.3 | Adolygiad blynyddol o'r polisi | MO | 15.08.23 |

**Atodiad A – Enghreifftiau o ymddygiadau a allai fod yn gyfystyr â bwlio, aflonyddu ac erledigaeth**

Bwriedir i'r enghreifftiau canlynol o ymddygiad nas dymunir sy'n gyfystyr â bwlio, aflonyddu ac erledigaeth fod yn enghreifftiol, ond nid ydynt yn cynnwys popeth. Ceidw'r Brifysgol yr hawl i ystyried digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn achosion o fwlio, aflonyddu ac erledigaeth hyd yn oed pan nad ydynt wedi'u cynnwys isod.

Mae ymddygiad nas dymunir sy'n gyfystyr ag aflonyddu yn cwmpasu ystod eang o ymddygiadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Sarhau, galw enwau ac iaith ac ystumiau tramgwyddus
- Jôcs amhriodol
- Gwawdio a thanseilio ymddygiad
- Cyswllt corfforol amhriodol neu ddiangen
- Ymosodiad corfforol neu fygythiadau o ymosodiad corfforol
- Gweithredoedd ac ymddygiad sy'n codi ofn, yn gorfodi neu'n bygwth
- Cynigion rhywiol digroeso
- Ynysu, diffyg cydweithredu neu allgau bwriadol
- Sylwadau amhriodol am olwg rhywun, cwestiynau ymwthiol neu sylwadau am fywyd preifat rhywun a chlecs maleisus
- Delweddau a deunydd darllen tramgwyddus
- Plagio, ysbïo neu stelcian

Mae ymddygiad nas dymunir sy'n gyfystyr â bwlio yn cwmpasu ystod eang o ymddygiadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gwawdio person
- Gweiddi neu sgrechian ar berson
- Beirniadaeth afresymol neu annilys a beirniadaeth sydd heb y cymorth adeiladol angenrheidiol i helpu'r derbynnydd i wella ei berfformiad
- Tynnu sylw at unigolyn yn barhaus heb reswm da
- Allgau, ynysu neu anwybyddu unigolyn yn fwriadol
- Gwneud bygythiadau neu sylwadau am lwyddiant neu fethiant academaidd
- Beirniadaeth gyhoeddus ddiangen.

Gall ymddygiad nas dymunir sy'n gyfystyr ag erledigaeth gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain:

- labelu unigolyn yn 'achos trwbl' a/neu wrthod ei ddatblygu'n academaidd neu'n broffesiynol,
- gwrthod rhoi geirda wedi i'r berthynas waith neu ddysgu ddod i ben, neu
- ei drin yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'w weithredoedd

**Atodiad B – Aflonyddu o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Bwriedir i'r enghreifftiau canlynol o aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig fod yn enghreifftiol, ond nid ydynt yn cynnwys popeth. Ceidw'r Brifysgol yr hawl i ystyried digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn achosion o aflonyddu hyd yn oed pan nad ydynt wedi'u cynnwys isod.

**Aflonyddu Hiliol**

Mae aflonyddu hiliol yn ymddygiad nas dymunir sy'n digwydd ar sail hil unigolyn, gan gynnwys ei darddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd.

Gall enghreifftiau o aflonyddu hiliol gynnwys:

- jôcs ac iaith hiliol,
- mynegi a pharhau i fynegi safbwyntiau a stereoteipiau hiliol,
- arddangos deunyddiau hiliol,
- allgau neu wrthod cydweithredu â rhywun yn fwriadol ar sail ei hil
- ennyn casineb a/neu ragfarn tuag at unigolion o grwpiau hiliol penodol
- arddangos graffiti neu arwyddluniau sarhaus
- annog neu orfodi eraill i gyflawni aflonyddu hiliol

**Aflonyddu ar sail rhyw**

Yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb mae rhyw yn cyfeirio at wryw neu fenyw o unrhyw oed. Mae aflonyddu ar sail rhyw yn disgrifio ymddygiad nas dymunir a gyfeirir at berson am ei fod yn wryw neu'n fenyw. Mae aflonyddu ar sail rhyw yn wahanol i aflonyddu rhywiol.

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail rhyw gynnwys:

- allgau neu wrthod cydweithredu â rhywun yn fwriadol ar sail rhyw,
- mynegi a pharhau i fynegi safbwyntiau a stereoteipiau hiliol
- jôcs ac iaith hiliol

**Aflonyddu Rhywiol**

Yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 mae aflonyddu rhywiol yn digwydd pan fydd person yn ymddwyn mewn ffordd nas dymunir o natur rywiol.

Gall enghreifftiau o aflonyddu rhywiol gynnwys:

- Cyswllt corfforol, yn amrywio o feddiannu lle personol, cyffwrdd amhriodol neu ymosodiad corfforol
- Cwestiynau a sylwadau ymwthiol am fywyd preifat unigolyn
- Sylwadau amhriodol am olwg neu wisg person
- Iaith, jôcs, ensyniadau geiriol a chorfforol sy'n amlwg rywiol
- Defnyddio geirfa ddiraddiol sy'n benodol i ryw
- Dangos neu ddosbarthu deunyddiau amlwg rywiol
- Galwadau cymhellol am ffafrau rhywiol (megis dyrchafiad neu lwyddiant academaidd yn dibynnu ar yr ymateb i'r galwadau)
- Ymyrryd trwy blagio, ysbïo neu stelcian

- Cynigion parhaus nas dymunir
- Trin person yn llai ffafriol am ei fod wedi ildio i, neu wrthod, ymddygiad nas dymunir o natur rywiol

**Aflonyddu ar sail anabledd**

Mae aflonyddu ar sail anabledd yn ymddygiad nas dymunir sydd wedi'i gyfeirio at berson ar sail ei anabledd corfforol neu feddyliol. Gall aflonyddu fod yn gysylltiedig â'r anabledd ei hun neu alluoedd gwirioneddol neu dybiedig y person.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel:

*nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys namau synhwyraidd megis y rhai sy'n effeithio ar y golwg neu'r clyw. Golyga hirdymor ei fod wedi para neu'n debygol o bara am o leiaf 12 mis neu am weddill oes y person anabl. Mae nam sylweddol yn golygu mwy na mân nam neu nam bychan.*

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail anabledd gynnwys:

- unigolion yn cael eu hanwybyddu, eu bychanu neu eu gwawdio oherwydd eu hanabledd,
- sylwadau personol amhriodol
- cwestiynau ymwthiol ac amhriodol diangen am gyflwr person
- cyfeiriadau eithafol a diangen at anabledd person
- allgau rhywun yn fwriadol o ddigwyddiadau neu gyfarfodydd ar sail eu hanabledd
- gwrthod gweithio neu astudio ochr yn ochr â rhywun ag anabledd

**Aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol**

Mae aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn ymddygiad nas dymunir sy'n deillio o gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig neu wirioneddol person

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol gynnwys:

- datgelu rhywioldeb rhywun neu fygwth gwneud hynny pan na ddymunir hynny,
- hel clecs neu ddyfalu am rywioldeb person
- sylwadau, jôcs ac iaith ddifrïol neu homoffobig
- allgau partneriaid o'r un rhyw o ddigwyddiadau
- cwestiynau ymwthiol am fywyd preifat person
- gwrthod gweithio neu astudio ochr yn ochr â rhywun ar sail ei gyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol neu ganfyddedig

**Aflonyddu ar sail ailbennu rhywedd**

Mae aflonyddu ar sail ailbennu rhywedd yn ymddygiad nas dymunir wedi'i gyfeirio at berson sy'n bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu sydd wedi bod trwy broses ailbennu rhywedd

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio ailbennu rhywedd fel:

*Pobl sy'n bwriadu mynd trwy, sydd yn mynd trwy neu sydd wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) i ailbennu eu rhywedd trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhyw.*

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail ailbennu rhywedd gynnwys:

- Allgau person;
- Jôcs a galw enwau;
- Gwrthod cydnabod rhywedd caffaeledig rhywun a defnyddio'r rhagenw anghywir yn barhaus
- Galw rhywun yn barhaus wrth ei enw genedigol heb ganiatâd ar ôl i'r person hwnnw newid ei enw yn rhan o'i drawsnewidiad – "camenwi"[8]
- Datgelu rhywedd blaenorol y person neu fygwth gwneud hynny pan na ddymunir hynny

**Aflonyddu ar sail crefydd neu gred**

Mae aflonyddu ar sail crefydd neu gred yn ymddygiad nas dymunir a gyfeirir at berson ar sail ei grefydd neu system gred gyffelyb.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio crefydd a chred fel a ganlyn:

Mae '**crefydd**' yn golygu unrhyw grefydd ac mae'n cynnwys diffyg crefydd.

Mae 'cred' yn golygu unrhyw gred grefyddol neu athronyddol ac mae'n cynnwys diffyg cred. Er mwyn i gred athronyddol gael ei diogelu dan y Ddeddf Cydraddoldeb:

- rhaid ei harddel go iawn
- rhaid iddi fod yn gred ac nid yn farn neu safbwynt sy'n seiliedig ar gyflwr presennol y wybodaeth sydd ar gael
- rhaid iddi fod yn gred sy'n ymwneud ag agwedd bwysig a sylweddol o fywyd ac ymddygiad dynol
- rhaid iddi gyrraedd lefel benodol o wybyddiaeth, difrifoldeb, cydlyniad a phwysigrwydd a
- rhaid iddi fod yn deilwng o barch mewn cymdeithas ddemocrataidd, heb fod yn anghydnaws ag urddas dynol na gwrthdaro â hawliau sylfaenol pobl eraill.

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail crefydd neu gred gynnwys:

- Sarhau neu wawdio crefydd neu gred rhywun (gan gynnwys eitemau a wisgir am resymau crefyddol);
- Pardduo arferion sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred unigolyn
- Mynegi a pharhau i fynegi canfyddiadau a thybiaethau stereoteipiedig am grefydd neu gred a'i dilynwyr; a
- Phwysau cymhellol i droi at neu gydymffurfio â chrefydd neu system gred.

Gall aflonyddu ddigwydd hefyd oherwydd tybir bod rhywun o grefydd neu gred benodol, hyd yn oed os nad yw hyn yn wir, neu ar sail diffyg ymlyniad rhywun at grefydd neu system gred.

---

[8] https://www.stonewall.org.uk/help-advice/faqs-and-glossary/glossary-terms#d

**Aflonyddu ar sail oedran**

Mae aflonyddu ar sail oedran yn ymddygiad nas dymunir sy’n gysylltiedig ag oedran go iawn neu ganfyddedig rhywun.

Gallai enghreifftiau o aflonyddu ar sail oedran gynnwys:

- Jôcs, galw enwau a sylwadau yn ymwneud ag oedran gwirioneddol neu ganfyddedig unigolyn
- Cyfeiriadau amhriodol at oedran
- Sylwadau am alluoedd tybiedig unigolyn ar sail ei oedran gwirioneddol neu ganfyddedig

**Atodiad C: Ymddygiadau a Chosbau Enghreifftiol**

Mae troseddau camymddwyn anacademaidd yn cael eu categoreiddio fel rhai mân neu fawr. Ni nodir isod pa enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol sy’n rhai mân neu fawr ac yn wir gallai’r un ymddygiad annerbyniol fod naill ai’n fân neu’n fawr gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Mae’r sancsiynau a nodir isod y gellir eu cymhwyso i drosedd benodol yn enghreifftiol yn unig.

Gall digwyddiadau camymddwyn lluosog neu fynych fod yn fwy difrifol nag un achos o gamymddwyn a gellir cymryd canfyddiadau blaenorol i ystyriaeth wrth benderfynu ar y sancsiwn i’w gosod.

**Troseddau yn ymwneud ag Eraill**

| Trosedd | Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol | Enghreifftiau o Gosbau |
|---|---|---|
| **Camymddwyn Corfforol** | Taro; Cicio; Slapio; Tynnu gwallt; Brathu; Ymosod | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Contract ymddygiad; Dirwy |
| **Camymddwyn Corfforol** | Gwthio; Pwnio | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Contract Ymddygiad; Cyfiawnder adferol; Dirwy |
| **Camymddwyn Rhywiol** | Cyfathrach rywiol neu gymryd rhan mewn gweithred rywiol heb ganiatâd; Ceisio cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu gymryd rhan mewn gweithred rywiol heb ganiatâd; Rhannu deunyddiau rhywiol preifat person arall heb ganiatâd;<br>Aflonyddu rhywiol corfforol; meddiannu lle personol yn amhriodol a/neu ymddygiad corfforol amhriodol;<br>Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da;<br>Gwneud sylwadau neu gynigion o natur rywiol nas dymunir; Dangos deunyddiau tramgwyddus; tecstio, e-bostio, postio deunyddiau rhywiol amhriodol ar-lein gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddefnyddio termau rhywiol difrïol i ddisgrifio rhywun; Gofyn am ffafrau rhywiol a/neu wneud penderfyniadau yn seiliedig ar a gafodd cynigion rhywiol eu derbyn neu eu gwrthod | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Contract Ymddygiad; |
| **Ymddygiad Sarhaus** | Gweiddi, bygwth, cam-drin, dychryn neu ddiraddio rhywun; Sylwadau dilornus / sarhaus sy'n ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd/mamolaeth, priodas/ partneriaeth sifil, ailbennu | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Contract ymddygiad; Rhybudd Ffurfiol; Cyfiawnder adferol |

| | | |
|---|---|---|
| | rhywedd, anabledd neu oedran rhywun; Gweithredu mewn modd bygythiol a gelyniaethus yn gorfforol neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu; Bygwth trais drwy unrhyw ddull cyfathrebu; Gwawdio neu feirniadu mewn modd dinistriol; Anwybyddu neu ymyleiddio; Bychanu a thanseilio person; Lledaenu sïon neu honiadau maleisus drwy unrhyw ddull cyfathrebu; Lledaenu gwybodaeth anghywir drwy unrhyw ddull cyfathrebu; Camddefnyddio pŵer | |
| **Ymddygiad Sarhaus** | Defnyddio iaith amhriodol; Cysylltu â pherson arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, e-bost, neges destun neu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniadau'r person arall | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Cyfiawnder adferol |
| **Achosi Pryder Iechyd neu Ddiogelwch** | Gweithred/anweithred a achosodd neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol i iechyd a diogelwch pobl eraill (er enghraifft, diystyru gofynion cadw pellter cymdeithasol, trefnu cynulliadau mawr yn erbyn cyngor y Brifysgol/Llywodraeth | Rhybudd Ffurfiol; Dirwy; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Diarddel; Atal/Gwahardd; Cyfyngiadau/Amodau; |

**Troseddau'n ymwneud ag eiddo**

| Trosedd | Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol | Enghreifftiau o Gosbau |
|---|---|---|
| **Difrod i Eiddo** | Achosi difrod i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Gofyniad i wneud iawn am y difrod a achoswyd ar eu traul eu hunain; Dirwy<br>Cyfiawnder adferol;<br>gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| **Difrod i Eiddo** | Creu mân ddifrod i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Dirwy;<br>Cyfiawnder adferol;<br>gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| **Cymryd neu Ddefnyddio Eiddo heb Awdurdod** | Mynediad heb awdurdod i safle'r Brifysgol neu ddefnyddio'r safle heb awdurdod; Camddefnyddio unrhyw eiddo, cronfeydd neu | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Cyfiawnder adferol; |

| | | |
|---|---|---|
| | asedau sy'n perthyn i'r Brifysgol; Twyllo; Dwyn; Mynd ag eiddo sy'n perthyn i rywun arall heb ganiatâd | gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| **Cymryd neu Ddefnyddio Eiddo heb Awdurdod** | Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (er enghraifft cyfrifiaduron ac offer labordy) | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Dirwy; Contract Ymddygiad;<br>Cyfiawnder adferol;<br>gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| **Achosi Pryder Iechyd neu Ddiogelwch** | Gweithred/anweithred a achosodd neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, analluogi diffoddyddion tân, neu fod â meddiant/gyflenwi cyffuriau rheoledig) | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Adfer difrod;<br>Cyfiawnder adferol;<br>gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| **Achosi Pryder Iechyd neu Ddiogelwch** | Gweithred/anweithred a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol (er enghraifft, gweithredu yn erbyn cyngor a chanllawiau Covid-19, analluogi synwyryddion mwg) | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Dirwy;<br>Cyfiawnder adferol;<br>gwasanaeth cymunedol/ Prifysgol<br>**(Noder:** Rhestrir y cosbau posibl ar gyfer tramgwyddau ymddygiad yn gysylltiedig â Covid-19 yn Atodiad SC14) |

**Troseddau yn ymwneud â'r Brifysgol**

| Trosedd | Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol | Enghreifftiau o Gosbau |
|---|---|---|
| Rhwystro Gweithredol | Gweithredoedd/anweithredoedd/datganiadau a fwriedir i dwyllo'r Brifysgol; Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu rywle arall; Tarfu ar swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol | Diarddel;<br>Atal/Gwahardd;<br>Cyfyngiadau/Amodau;<br>Contract Ymddygiad |
| Rhwystro Gweithredol | Ymyrryd yn amhriodol â gweithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu rywle arall; Ymyrryd yn amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu | Rhybudd Ffurfiol;<br>Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Contract Ymddygiad |

| | | |
|---|---|---|
| | weithwyr y Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol | |
| Niwed i Enw Da | Ymddygiad sydd wedi achosi niwed difrifol neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol neu berthynas y Brifysgol â'r gymuned leol | Diarddel; Atal/Gwahardd; Cyfyngiadau/Amodau; gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |
| Niwed i Enw Da | Ymddygiad sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio enw da'r Brifysgol neu berthynas y Brifysgol â'r gymuned leol | Rhybudd Ffurfiol; Presenoldeb gorfodol mewn gweithdy/ sesiwn hyfforddi; Ymddiheuriad Ysgrifenedig; Cyfyngiadau/Amodau; gwasanaeth cymunedol/ prifysgol |